# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Bryn yr Eglwys**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/11/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cartref Bryn yr Eglwys wedi'i leoli mewn pentref gwledig ac mae'n rhan o'r gymuned leol. Nant-y-Foel Cyfyngedig sy'n berchen ar y cartref. Meryl Welsby yw'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ac mae wedi'i chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cartref yn darparu gofal nyrsio a/neu ofal personol i hyd at 20 o oedolion.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae Cartref Bryn Yr Eglwys yn cynnig parhad gofal gan grŵp sefydlog o staff sy'n adnabod anghenion y bobl yn dda. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn byw yn y cartref a chawsom adborth da gan un teulu a'r meddyg teulu lleol. Gwnaethom nodi rhai materion amgylcheddol nad oeddent yn bodloni deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a chafodd y rhain eu hunioni yn gyflym gan y darparwr ac anfonwyd tystiolaeth o gydymffurfiaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), o fewn cyfnod amserol. Cafodd materion eraill a nodwyd fel cynlluniau ymataliaeth y bobl eu gwella mewn modd amserol hefyd. Roedd y darparwr hefyd wedi buddsoddi mewn bymperi newydd ar gyfer ochrau cotiau a biniau pedal er mwyn sicrhau dulliau da o reoli heintiau yn y cartref.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad ôl-gofrestru cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016 (RISCA). Adroddir ar unrhyw welliannau o ganlyniad i'r arolygiad mewn arolygiadau yn y dyfodol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Hapwiriadau er mwyn sicrhau y caiff safonau amgylcheddol eu cynnal.
- Ystyried dewisiadau ar fwydlenni o ganlyniad i hyfforddiant ar faeth a deddfwriaeth newydd.
- Ystyried adolygu ffurflenni cais am swydd yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth.

## 1. Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn. Roedd anghenion unigol y bobl yn ganolog i'w cynllun gofal. Gwnaethom argymell y dylid cynnwys manylion ychwanegol ynghylch trefn feunyddiol ddewisol y bobl a chawsom sicrwydd y byddai hyn yn cael ei wneud. Roedd y Datganiad o Ddiben, a oedd yn egluro'r gwasanaethau a gynigir, y strwythur staff, a sut i fynegi pryderon pe byddai angen ar gael i'r bobl a'u teuluoedd. Gwnaethom nodi rhai meysydd lle roedd angen rhagor o fanylion yn y Datganiad o Ddiben, sef cymwysterau'r rheolwr a chynnig rhagweithiol y gwasanaeth ar gyfer y Gymraeg. Cafodd hyn ei unioni o fewn cyfnod amserol a chafodd y fersiwn ddiwygiedig ei rhannu ag AGC. Gallai'r bobl na allent eirioli drostynt eu hunain neu nad oedd ganddynt gynrychiolydd gael gafael ar eiriolwr annibynnol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Ceisiwyd barn y bobl a'u teuluoedd ac adroddwyd ar hynny yn yr archwiliad adolygu ansawdd blynyddol a sicrhawyd bod canlyniadau unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth ar gael yn rhwydd. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt.

Mae'r bobl yn cael eu galluogi i wneud pethau i gynnal eu llesiant. Roedd tîm cyfarwydd o staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu eu cefnogi i wneud pethau a oedd yn eu gwneud yn hapus. Roedd y staff yn cynnig gweithgareddau rheolaidd i'r bobl ynghyd â chyfleoedd i fod yn gymdeithasol. Roedd anghenion gofal iechyd y bobl yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Nodwyd rhai safonau amgylcheddol y gellid gwella arnynt a chafodd y rhain eu hunioni mewn modd amserol. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod yn heini ac yn iach.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Roedd y gwasanaeth yn gallu diogelu'r bobl drwy hyfforddi'r staff a thrwy ddilyn y broses ddiogelu ranbarthol. Roedd y rheolwyr yn monitro ac yn archwilio'r gwasanaeth er mwyn gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd polisi chwythu'r chwiban er mwyn i'r staff adrodd yn ddiogel ar arferion gwael. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn cael eu galluogi i adrodd ar ddigwyddiadau andwyol i'r rheolwyr. Mae gan y cartref bolisi a phroses gwynion cyffredinol hefyd.  Gwelsom dystiolaeth o'r rheolwr yn ymdrin â digwyddiad disgyblu mewn perthynas ag aelod o'r staff mewn modd cadarn. Mae'r cartref yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau'n rheolaidd. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Caiff y bobl fudd o fod mewn amgylchedd sy'n gwella'n barhaus. Roedd y cartref yn gynnes ac yn gartrefol. Roedd y bobl yn gallu personoli eu hystafelloedd ag eitemau a oedd yn bwysig iddynt ac o werth sentimental. Roedd y coridorau a'r ystafelloedd yn glir o beryglon baglu felly gallai'r preswylwyr gerdded o gwmpas yn ddiogel. Roedd estyniad yn cael ei adeiladu i ddarparu mwy o welyau i bobl oedd am gael gofal yn y cartref. Mae'r cartref yn addas ar gyfer darparu gofal diogel a phriodol i'r preswylwyr.

## 2. Gofal a Chymorth

Caiff y gofal ei gynllunio yn ôl anghenion unigol. Nid oedd yn glir yn ystod yr arolygiad beth oedd arferion a threfn ddewisol y bobl gyda'r nos yn enwedig o ran mynd i'r tŷ bach. Cafodd hyn ei adrodd yn ôl i'r rheolwr a luniodd gynlluniau manylach yn cydnabod dewisiadau'r bobl. Gwnaethom gynghori'r rheolwr i ystyried yr iaith a ddefnyddir mewn adroddiadau ysgrifenedig i sicrhau ei bod yn adlewyrchu profiadau'r unigolyn, yn hytrach na barn y gofalwr, a gwnaethom egluro sut y gellid ystyried bod rhai geiriau disgrifiadol yn feirniadol. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd yn fwriad beirniadu neb ac y byddai naratif disgrifiadol gwahanol yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Roedd y cynlluniau yn cynnwys dewisiadau cymdeithasol a hamdden y bobl yn ogystal ag unrhyw anghenion o ran cyfathrebu. Roedd y cynlluniau yn cael eu hadolygu bob mis a'u diweddaru yn ôl yr angen. Gwelsom fod y staff yn trin y bobl ag urddas a pharch, a bod y gofal a roddwyd yn amserol a digynnwrf.

Clywsom sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg â'r bobl yn unol â dewis personol yr unigolyn. Clywsom y staff yn rhoi dewisiadau i'r bobl drwy gydol y dydd, er enghraifft, beth i'w fwyta/yfed, ble i eistedd a pha weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt. Gwelsom fod y fwydlen yn cynnig un prif ddewis ar gyfer cinio, a rhoddwyd dewis amgen i'r bobl nad oeddent yn hoffi'r pryd. Gwnaethom argymell y dylid diwygio'r fwydlen o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd ar faeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael cyfle i gael o leiaf bum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd, un dogn o bysgod olewog bob wythnos a chydbwysedd priodol o faetholion eraill. Gwelsom y staff yn cynnal cwis gwybodaeth gyffredinol gyda'r bobl yn y prynhawn ac roedd y bobl yn chwerthin ac yn mwynhau eu hunain. Roedd parti Nadolig wedi cael ei drefnu a gwahoddwyd teulu, ffrindiau a theulu preswylwyr a fu farw hefyd. Dywedodd y bobl y siaradwyd â nhw eu bod yn gyfforddus ac yn hapus yn y cartref a bod y staff yn neis iawn. Gwnaethant ddweud bod eu hystafell yn gyfforddus a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref. Gwelsom gardiau diolch gan deuluoedd gyda sylwadau fel, *"thank you for your care and kindness."* a *"Diolch yn fawr am y gofal arbennig ac am wneud ei dyddiau yn fwy cyffyrddus."* Dywedodd perthynas un preswylydd wrthym fod y gofal yn y cartref yn dda a'i fod yn cyfathrebu'n dda â nhw fel teulu. Mae'r bobl yn cael dewisiadau ynghylch eu gofal dyddiol a chaiff eu lleisiau eu clywed.

Mae'r gwasanaeth yn ystyried iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol y bobl. Gwelsom fod ymweliadau adolygu rheolaidd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel y meddyg a gweithiwr cymdeithasol yn cael eu dogfennu yng nghynlluniau'r bobl. Gwelsom feddyg teulu yn ymweld â phreswylydd yn ystod yr arolygiad. Canmolodd y meddyg teulu y gofal yn y cartref gan ddweud bod adroddiadau gan y staff am newidiadau i gyflwr corfforol y bobl yn briodol ac yn amserol. Nodwyd cyfarwyddiadau a chanlyniadau hefyd yn y cynlluniau a chawsant eu cyfleu gan aelodau o'r staff rhwng un sifft gwaith a'r llall. Gwelsom gynlluniau diwedd oes lle gallai'r bobl gael cyfle i fynegi eu dymuniadau os oeddent yn gallu gwneud hynny. Roedd dangosyddion iechyd y bobl yn cael eu monitro, er enghraifft pwysau misol, ac roedd unrhyw broblemau'n cael eu hamlygu i'w hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel oedd yn briodol. Gwelsom fod y risg o gwympo yn cael ei asesu a'i diweddaru'n rheolaidd. Cafodd gofal clwyfau ei ddogfennu gan ddefnyddio ffurflenni a oedd yn fanwl ac yn cynnwys mapiau a ffotograffau o'r corff. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y bobl yn gyfforddus ac nad oedd eu croen yn mynd yn ddolurus. Roedd y bwyd a'r ddiod roedd y bobl yn eu bwyta a'u hyfed yn cael eu monitro er mwyn sicrhau lefelau hydradiad a

maeth da. Roedd cyflwr emosiynol y bobl a'r modd roeddent yn mynegi gorbryder yn cael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau personol ac yn y cyfarwyddiadau a roddwyd o ran y ffordd orau o dawelu meddwl yr unigolyn. Mae'r bobl yn cael y gofal a’r cymorth cywir mewn modd amserol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu lleol ac roeddent wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu rhyddid pobl. Roedd y bobl na allent wneud eu penderfyniadau eu hunain mewn perthynas â gofal a ble i fyw yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Gwelsom fod y ceisiadau ar gyfer DoLS a'r gwaith papur yn briodol ac yn ddigon manwl. Gallai'r bobl na allent siarad drostynt eu hunain neu nad oedd ganddynt gynrychiolydd a nodwyd gael gafael ar gynrychiolydd annibynnol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd adroddiadau ymweliadau'r unigolyn cyfrifol yn dangos trosolwg o'r cartref a'r gwasanaeth a gynigir. Mae'r bobl mor ddiogel â phosibl yn y cartref.

## 3. Yr amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol sy'n gwella'n barhaus. Gwnaethom nodi rhai materion amgylcheddol yn ystod yr arolygiad. Nid oedd rhai ystafelloedd mor ffres â'r disgwyl. Dywedwyd wrthym nad oedd yr ystafelloedd yn cael eu glanhau nes bod y bobl wedi cael gofal ac wedi mynd i lawr y grisiau i'r lolfa ond eu bod yn cael eu glanhau bob dydd. Gwelwyd rhai materion iechyd a diogelwch fel cyfarpar trydanol a oedd wedi'i storio mewn ystafell ymolchi a bod angen glanhau ffenestri a gosod cyfyngwyr. Ymatebodd yr unigolyn cyfrifol yn gyflym i hyn a glanhaodd yr ystafell ymolchi a chynnal a chadw'r ffenestri ac archebu cyfyngwyr hefyd. Dywedodd y bobl a oedd yn byw yn y cartref wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn *"gartrefol"* yn yr amgylchedd. Hefyd, anfonodd yr unigolyn cyfrifol dystiolaeth o fymperi ochr cotiau newydd ar gyfer gwelyau a brynwyd a biniau pedal ar gyfer ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau camau rheoli heintiau da. Gwnaethom argymell y dylid cynnal hapwiriadau a gofnodir er mwyn sicrhau safonau amgylcheddol da parhaus.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cartref yn eang gyda lolfeydd i'r bobl fod yn gymdeithasol yn ogystal ag ardaloedd tawelach. Cafodd y bobl eu hannog i eistedd yn y lolfa i gymdeithasu ac ymuno yng ngweithgareddau'r diwrnod. Gallai'r bobl eistedd o amgylch y bwrdd ar gyfer prydau bwyd os oeddent yn dymuno. Gallai'r bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau a oedd yn bwysig iddynt a chyffyrddiadau cartrefol. Gallai'r bobl fanteisio ar weithgareddau a oedd o ddiddordeb iddynt fel celf a chrefft, adloniant, teledu a chymdeithasu â phobl eraill yn y cartref. Roedd y staff yn cynnig byrbrydau a diodydd yn rheolaidd i'r bobl. Roedd gwybodaeth sensitif fel ffeiliau personol y bobl a ffeiliau'r staff yn cael eu cadw mewn cypyrddau y gellid eu cloi mewn swyddfa ddynodedig. Roedd meddyginiaethau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau, trolïau ac oergelloedd dan glo fel oedd yn briodol. Roedd y systemau monitro a rhoi meddyginiaeth yn foddhaol. Roedd gwiriadau cynnal a chadw, tân ac iechyd a diogelwch yn gyfredol. Roedd y cartref mor ddiogel â phosibl. Roedd y drysau ffrynt wedi'u cloi a gofynnwyd i bobl lofnodi pan fyddent yn dod i mewn i'r adeilad ac yn ei adael. Gofynnwyd i ni ddangos ein cardiau adnabod er mwyn cadarnhau pwy oeddem ni. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant a'u diogelwch.

## 4. Arwain a Rheoli

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda. Gwelsom fod hyfforddiant parhaus yn cael ei gynnig i'r staff gan y darparwr. Cadarnhaodd y rheolwr fod y staff wedi cael hyfforddiant o ran maeth yn unol â deddfwriaeth newydd. Cynigiwyd goruchwyliaeth i'r staff yn rheolaidd er mwyn cefnogi eu hymarfer bob dydd a nodi anghenion hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus wrth eu gwaith a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Roedd y staff o'r farn bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gallent gyfrannu eu syniadau er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach. Dywedodd y staff eu bod yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac y gallent roi gwybod am unrhyw arfer wael i'r rheolwr. Gwnaethom nodi bod y staff yn gweithio'n dda fel tîm er mwyn cyflawni amcanion y bobl. Dywedodd y staff wrthym fod pawb yn cefnogi ei gilydd. Caiff y bobl gymorth gan staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i alluogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei fesur o ran ei ansawdd. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei archwilio'n fisol mewn perthynas â chwympiadau, rheoli heintiau a staffio. Roedd agweddau eraill ar y gwasanaeth fel cynlluniau personol a chofnodion rhoi meddyginiaeth hefyd yn cael eu harchwilio. Roedd canlyniadau archwiliadau'n cael eu rhannu â'r staff er mwyn sicrhau arfer dda barhaus. Gwnaethom archwilio arferion rhoi, cofnodi a storio meddyginiaeth yn y cartref a gwelwyd eu bod yn foddhaol. Dangosodd cofnodion ymweliadau'r unigolyn cyfrifol drosolwg da o'r gwasanaeth gan ystyried safbwyntiau'r teuluoedd a'r preswylwyr. Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cynnig gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus.

Mae arferion recriwtio a chyflogaeth yn foddhaol ar y cyfan. Gwnaethom archwilio ffeiliau'r staff a gwelsom fod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Gwelsom fod rhai geirdaon yn cael eu cymryd dros y ffôn a gwnaethom awgrymu y dylai pobl fod yn dyst i'r rhain a llofnodi ar eu cyfer a, lle y bo'n bosibl, y dylid ceisio geirdaon ysgrifenedig er mwyn sicrhau llwybr archwilio cadarn. Roedd y ffurflenni cais am swydd wedi dyddio i raddau ac argymhellwyd y dylent gael eu diweddaru a'u hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth. Gwelsom fod staff newydd yn cael sesiynau sefydlu mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag iechyd a diogelwch yn y cartref, ynghyd ag amser i ddarllen polisïau a phrotocolau. Roedd staff newydd hefyd yn cael sifftiau cysgodi a goruchwyliaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag anghenion y bobl a'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt yn eu rôl. Gall y bobl deimlo'n hyderus bod arferion recriwtio boddhaol yn y cartref.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y canlynol er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl sy'n byw yn y cartref:

- Dogfennu hapwiriadau er mwyn sicrhau y caiff safonau glendid amgylcheddol, rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch eu cynnal.
- Ystyried dewisiadau ar fwydlenni o ganlyniad i hyfforddiant ar faeth diweddar aelodau o'r staff a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd. Dylai'r bobl gael cyfle i gael o leiaf bum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd, cydbwysedd da o broteinau a charbohydradau a dogn o bysgod olewog bob wythnos ar gyfer iechyd y galon.
- Ystyried adolygu'r ffurflenni cais am swydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn dirybudd a gynhaliwyd gan ddau arolygydd ar 28 Tachwedd 2019 rhwng 10:10am a 7pm. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o'n rhaglen arolygu o dan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru)) 2017.

Roedd yr arolygiad hwn yn rhan o adolygiad AGC o ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Gwnaethom siarad â'r rheolwr, y dirprwy reolwr, pedwar aelod o'r staff, un perthynas, tri pherson a oedd yn byw yn y cartref a meddyg teulu.
- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI, fersiwn 2). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Gwnaethom archwilio'r cartref a'r cyfleusterau, gan gynnwys detholiad o ystafelloedd y bobl.
- Gwnaethom gynnal adolygiad o feddyginiaethau.
- Gwnaethom ystyried amrywiaeth eang o gofnodion a gadwyd gan y gwasanaeth cofrestredig a chanolbwyntio ar ffeiliau gofal chwe pherson, ffeiliau pedwar aelod o'r staff, archwiliad a chofnodion diogelwch tân, cofnodion cynnal a chadw, archwiliadau iechyd a diogelwch, adroddiad misol y rheolwr, adroddiadau'r unigolyn cyfrifol, dogfennau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), cofnodion goruchwylio a hyfforddi staff, ffeil gweithgareddau, bwydlenni a'r Datganiad o Ddiben.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **NANT-Y-FOEL CYFYNGEDIG** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Meryl Welsby** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu hwn/hyn** | **28 Tachwedd 2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy, mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n cefnogi dewis iaith gyntaf, diwylliant ac ethnigrwydd y bobl.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/03/2020